Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr

CORFFORAETHOL

Pwy ydyn ni, Beth rydyn ni'n ei wneud

Achub bywydau, ffyrdd mwy diogel, lleihau troseddu, amddiffyn yr amgylchedd

Pwy ydyn ni

Mae'r Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA) yn darparu amrywiaeth o wasanaethau trwyddedu, profi a gorfodi, gyda'r nod o wella safonau addasrwydd cerbydau i fod ar y ffordd, gan sicrhau bod gweithredwyr a gyrwyr yn cydymffurfio â deddfwriaeth traffig y ffyrdd, a chefnogi'r Comisiynwyr Traffig annibynnol.

Ein cwsmeriaid

Mae gweithgareddau VOSA yn cefnogi'r bobl a'r sefydliadau canlynol:

- Y Diwydiannau Cerbydau Cludo ar y Ffyrdd a Cherbydau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Gyrwyr Galwedigaethol
- Modurdai MOT
- Perchnogion cerbydau preifat a'r cymdeithasau masnach cysylltiedig
- Gwneuthurwyr a mewnforwyr cerbydau
- Comisiynwyr Traffig
- Y Llysoedd
- Yr Heddlu
- Y Cyhoedd

Beth rydyn ni’n ei wneud

Trwyddedu

Darparu cymorth gweinyddol i’r Comisiynwyr Traffig yng nghyswllt ystyried a phrosesu ceisiadau am drwyddedau i weithredu lorïau, bysiau a bysiau moethus. Mae hyn yn sicrhau bod deiliaid trwyddedau yn bodloni’r safonau a bennir ar gyfer ymuno â’r diwydiant gweithredwyr cerbydau ac yn ceisio sicrhau’r effaith leiaf bosibl ar yr amgylchedd ac ar ddiogelwch y ffyrdd o gwmpas canolfannau gweithredu cerbydau nwyddau.

Profi ac Arolygiadau



Cynnal profion statudol blynyddol ar gyfer lorïau, bysiau a bysiau moethus mewn rhwydwaith genedlaethol o orsafoedd profi VOSA ac mewn adeiladau profi cymeradwy yn y sector preifat (adeiladau dynodedig). Rydyn ni hefyd yn gwneud arolygiadau arbenigol ar gerbydau, e.e. ardystio cerbydau gwasanaeth cyhoeddus cyn iddynt fynd ar waith, arolygu cerbydau sydd wedi’u mewnforio neu’u hadeiladu gan amaturiaid er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r safonau iechyd ac amgylcheddol derbyniol (Cymeradwyaeth Cerbyd Unigol (IVA) a Cymeradwyaeth Cerbyd Sengl Beic modur (MSVA)); arolygiadau i adnabod cerbydau sydd wedi’u pennu’n anadferadwy ac wedi mynd yn ôl ar y ffordd (Archwiliad Adnabod Cerbydau).

Rheoleiddio Bysiau

Darparu cymorth gweinyddol i'r Comisiynwyr Traffig wrth gofrestru gwasanaethau bysiau lleol.

Gorfodi a Chydymffurfio

Cefnogi'r Comisiynwyr Traffig er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch trwyddedu gweithredwyr; gofynion ynghylch gyrwyr galwedigaethol a chofrestru bysiau; ac adnabod gweithredwyr y byddai'n amhriodol cymryd camau disgyblu yn eu herbyn drwy gasglu a gwerthuso ystod o ddata. Cynnal archwiliadau rheolaidd ac wedi'u targedu ar adeiladau gweithredwyr ac ar systemau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer profi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth traffig y ffyrdd arall, e.e. oriau gyrwyr, ar ochr y ffordd ac yn adeiladau'r gweithredwyr. Cymeradwyo ceisiadau gan weithredwyr sydd am weithredu lorïau trymach. Monitro cydymffurfiaeth gweithredwyr bysiau lleol â'u hamserlenni cofrestredig. Gweinyddu achosion Ymddygiad Gyrwyr Galwedigaethol a gyfeirir gan DVLA a lle bydd gyrwyr galwedigaethol wedi cyflawni troseddau traffig y ffyrdd anardystiadwy. Gorfodi cydymffurfiaeth â'r cynllun Hyfforddwyr Gyrru Cymeradwy.

MOT

Goruchwylio'r cynllun MOT er mwyn sicrhau bod y 20,500 o fodurdai MOT sydd wedi'u cymeradwyo i gynnal profion MOT yn gwneud hynny'n unol â'r safonau cywir. Gwneir hyn drwy gymeradwyo a hyfforddi Archwilwyr Awdurdodedig a Phrofwyr Enwebedig i gynnal profion MOT; monitro safonau modurdai a phrofion MOT; darparu seminarau a gwasanaethau cynghorol eraill a, lle bo angen, cymryd camau disgyblu, er mwyn gwella safonau profi a chodi'r lefelau cydymffurfio.

Ymchwilio i ddamweiniau ac ymchwil technegol

Cynnal ymchwiliadau technegol i ddiffygion cynhyrchu neu ddylunio posibl, tynnu sylw at bryderon ynghylch diogelwch a monitro'r broses o alw ceir yn ôl am resymau diogelwch. Cefnogi'r Heddlu drwy archwilio cerbydau sydd wedi bod mewn damweiniau i weld a oes diffygion y gallent fod wedi cyfrannu at y digwyddiad.

Hyfforddiant ac Addysg

Darparu amrywiaeth o weithgareddau addysgol a chynghorol ar ochr y ffordd, mewn adeiladau gweithredol ac ar sail un i un. Cynhyrchu cyhoeddiadau a DVDs a chynnal seminarau i hybu gweithredwyr a gyrwyr i gydymffurfio'n well â'r rheoliadau traffig ac addasrwydd i fod ar y ffordd Mae cyrsiau a chynnyrch hyfforddi masnachol hefyd ar gael.

Y gwasanaeth a rown i chi

Ymdrechwn i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i bawb sy'n ymwneud â VOSA. Mae ein safonau wedi'u cyhoeddi yn y daflen - "Y gwasanaeth a rown i chi", sydd ar gael o'n gwefan, **www.dft.gov.uk/vosa**, neu drwy ffonio rhif cenedlaethol VOSA, **0300 123 9000**.

I gael rhagor o wybodaeth

Os hoffech wybod rhagor am waith VOSA, mae gwybodaeth fanwl ar gael yn y Cyfrifon a'r Adroddiad Blynyddol ac yn y Cynllun Busnes. Mae'r rhain yn adolygu gwaith VOSA dros y flwyddyn ddiwethaf; yn rhoi manylion perfformiad ac yn amlinellu'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan gynnwys targedau ar gyfer gwella effeithlonrwydd.

Mae'r rhain, yn ogystal â dogfennau eraill, ar gael ar wefan gorfforaethol VOSA, **www.dft.gov.uk/vosa**.

Sylwer: Mae VOSA yn atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ac yn cydweithio'n agos ag asiantaethau eraill yr Adran Drafnidiaeth, awdurdodau lleol ac adrannau eraill y llywodraeth i ddarparu gwasanaethau yn effeithiol.

VOSA/COMMS/2329A/MAY 12

Ewch i'n gwefannau:

Ar gyfer cwsmeriad masnachol a modurwyr preifat
www.gov.uk

Gwybodaeth gorfforaethol
www.dft.gov.uk/vosa

Cysylltwch â ni:

E- bost
enquiries@vosa.gov.uk

Rhif Ffôn Cenedlaethol
0300 123 9000*

Dydd Llun i Ddydd Gwener - rhwng
7.30am a 6.00pm (oriau gwaith arferol)

**Codir cyfradd isel am alwadau a ddarperir gan BT. Gall cyfraddau darparwyr eraill amrywio.*